**Atodiad 2A – Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Arbennig Park Lane**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 20 Gorffennaf 2023 |
| **Amser** | 15:30 tan 16:00 |
| **Math** | Microsoft Teams |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Title** |
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Bethan Davies | BD | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Paul Hughes | PH | Swyddog Adnoddau Dynol |
| Diane Llewellyn | DL | Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Arbennig Park Lane |
| Dd/B | Dd/B | Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Arbennig Park Lane |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd AR drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. **Cwestiynau gan Staff ac Aelodau o'r Cyrff Llywodraethu**

   Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Arbennig Park Lane i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau gan y Corff Llywodraethu ac aelodau staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| Rhif | Cwestiwn | Ateb |
|---|---|---|
| 1. | A fydd y newidiadau dalgylch yn effeithio ar y niferoedd yn Ysgol Arbennig Park Lane? | **GD Rydyn ni'n gweld twf cynyddol ar draws ein holl ysgolion arbennig ac yn rhagweld y bydd y duedd yma'n parhau.** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Fydd y newidiadau dalgylch sy'n rhan o'r cynnig hwn ddim yn effeithio'n fawr ar Ysgol Arbennig Park Lane a dydyn ni ddim yn rhagweld y bydd niferoedd disgyblion yn gostwng.<br><br>Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd. |
| 2. | Mae niferoedd Ysgol Arbennig Park Lane yn cynyddu, gan arwain at angen am leoedd ychwanegol i'w ychwanegu at y safle. A fydd unrhyw fuddsoddiad yn Ysgol Arbennig Park Lane? | **GD Does dim modd i ni fuddsoddi ym mhob ysgol ar yr un pryd, rhaid cael rhaglen o fuddsoddi graddol. All buddsoddiad mewn ysgolion ddim dod oddi wrth y Cyngor yn unig, mae'n rhaid i'r ysgolion fuddsoddi eu hunain.**<br><br>**LH Erbyn Medi 2023, bydd dwy ystafell ddosbarth ychwanegol yn cael eu hychwanegu at Ysgol Arbennig Park Lane ynghyd â chanopïau a swyddfa.**<br><br>Mae’n bosibl y bydd cyfleoedd ychwanegol i wneud cais am gyllid i Lywodraeth Cymru drwy’r Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol i fuddsoddi o bosibl mewn gofod allanol o amgylch Ysgol Arbennig Park Lane.<br><br>**ar: Mae'r Cyngor yn effro i'r angen am fuddsoddiad yn Ysgol Arbennig Park Lane. Gallai buddsoddiad yn Ysgol Arbennig Park Lane yn y dyfodol fod yn rhan o'n Rhaglen Gyfalaf os cytunir arno gan** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Aelodau o Gabinet y Cyngor.** |
| 3. | Mae hwn yn brosiect hynod gadarnhaol. | **GD Mae hwn yn gyfle hynod gyffrous i'r Cyngor, a byddwn ni'n gweld £54.3 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn ysgol arbennig newydd.** |
| 4. | A fydd cyfleoedd i ddisgyblion sy’n mynychu’r ysgolion arbennig ar draws Rhondda Cynon Taf fod yn rhan o’r broses? | **AR Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais plant a phobl ifainc yn ymwneud â'u cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol.**<br><br>Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, rydyn ni wedi sicrhau bod trefniadau addas wedi cael eu gwneud i gynnwys disgyblion a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.<br><br>Rydyn ni wedi mynychu cyfarfodydd Cyngor Ysgol gyda:<br><br>• Ysgol Arbennig Park Lane<br>• Ysgol Hen Felin<br>• Ysgol Tŷ Coch, gan gynnwys Buarth-y-Capel.<br><br>Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu fersiwn plant a |

| | | |
|---|---|---|
| | | phobl ifainc o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau staff y bydden nhw'n cael cynnig y cyfle dros yr wythnosau nesaf i fyfyrio ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben.

**Atodiad 2B - Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Hen Felin**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 19 Gorffennaf 2023 |
| **Amser** | 15:30 tan 16:15 |
| **Math** | Microsoft Teams |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Ellen Williams | EW | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Aron Bradley | AB | Prifathro Ysgol Hen Felin |
| Dd/B | Dd/B | Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Hen Felin |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd AR groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd AR drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. **Cwestiynau gan Staff ac Aelodau o'r Cyrff Llywodraethu**

   Gwahoddwyd Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Hen Felin i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau gan y Corff Llywodraethu ac aelodau staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| Rhif | Cwestiwn | Ateb |
|---|---|---|
| 1. | Sut olwg fydd ar y Corff Llywodraethu? | **AR Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd Corff Llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ysgol arbennig newydd. Bydd hyn yn cael ei sefydlu yn gynnar yn y broses.** |
| 2. | Sut olwg fydd ar yr Uwch Dîm Rheoli? | **EW Dyw strwythur yr Uwch Dîm Rheoli** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **newydd ar gyfer ysgolion arbennig ddim wedi'i benderfynu eto.**<br><br>Yn seiliedig ar Gymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu blaenorol (a elwid yn flaenorol yn Ysgolion yr 21ain Ganrif) a ddarperir gan y Cyngor, bydd y Pennaeth yn cael ei benodi tua 12 i 18 mis cyn agor yr ysgol arbennig newydd. Bydd y Pennaeth wedyn yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu dros dro i sefydlu strwythur ar gyfer yr ysgol arbennig newydd a fydd yn cyd-fynd â'r gyllideb a ddyrannwyd. |
| 3. | Sut olwg fydd ar y broses recriwtio? | **AR Fydd dim swyddi'n cael eu neilltuo, bydd cyfleoedd ar agor i bawb. Bydd croeso i ymgeiswyr o bob rhan o Rondda Cynon Taf.**<br><br>**EW Yn seiliedig ar Gymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu blaenorol (a elwid yn flaenorol yn Ysgolion yr 21ain Ganrif) a ddarperir gan y Cyngor, bydd y Pennaeth yn cael ei benodi tua 12 i 18 mis cyn agor yr ysgol arbennig newydd. Bydd y Pennaeth wedyn yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu dros dro i sefydlu strwythur ar gyfer yr ysgol arbennig newydd a fydd yn cyd-fynd â'r gyllideb a ddyrannwyd.**<br><br>Byddai'r recriwtio yn dechrau gyda phenodi'r Pennaeth, ac yna'r Uwch |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dîm Rheoli ac yn y blaen gyda golwg ar gwblhau'r recriwtio erbyn i'r ysgol newydd agor. |
| 4. | Beth yw'r cynllun i sicrhau bod yr ysgol arbennig newydd yn cael ei hadeiladu'n ddigon mawr i ddiogelu rhag yr angen i ehangu yn y dyfodol? | **AR Ar hyn o bryd, rydyn ni'n disgwyl bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar gyfer 180 o ddisgyblion. Serch hynny, bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad asesiad dichonoldeb pellach ac yn dilyn bwrw ymlaen â chynllun manwl yr ysgol newydd.**<br><br>Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ALNET 2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn eu hardal yn barhaus ac ystyried a yw'r rhain yn ddigonol, sef pam mae angen sicrhau ein bod ni'n gwneud y mwyaf o'r gofod sydd ar gael ar y safle arfaethedig. |
| 5. | A fydd yr adnoddau yn adlewyrchu'r hyn sydd yn ei le yn Ysgol Hen Felin, neu a fyddan nhw'n wahanol? | **AR Bydd yr adnoddau yn debyg i'r adnoddau hynny yn Ysgol Hen Felin.**<br><br>**LH Bydd Gweithgor yn cael ei sefydlu i arwain ar adnabod arfer gorau ar draws y sector ysgolion arbennig.** |
| 6. | Ydy'r adeilad yn mynd i fod yn un neu ddau lawr? | **AR Bydd yn amodol ar ymgymryd ag ymarferoldeb pellach a symud ymlaen gyda chynllun manwl yr ysgol arbennig newydd.** |
| 7. | A fydd y neuadd fwyta ar wahân i'r brif neuadd? | **AR Bydd yn amodol ar ymgymryd ag** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **ymarferoldeb pellach a symud ymlaen gyda chynllun manwl yr ysgol arbennig newydd.** |
| 8. | A fydd y cyfleuster cymunedol a grybwyllir yn y Ddogfen Ymgynghori yn fynediad agored yn ystod y dydd? | **AR Bydd yn amodol ar ymgymryd ag ymarferoldeb pellach a symud ymlaen gyda chynllun manwl yr ysgol arbennig newydd.**<br><br>Bydd yr ysgol yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. |
| 9. | A fydd lle ar gyfer cyfleusterau cyn ysgol / cylch chwarae yn cael ei ddarparu. | Gweler rhif 8 |
| 10. | A fydd disgyblion yn gallu symud heb wneud cais am le? | **AR Bydd modd i blant a phobl ifainc sy'n dymuno aros yn eu hysgol arbennig bresennol yn dilyn y newidiadau dalgylch barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, bydd yr holl leoliadau newydd yn cael eu llywio gan y dalgylchoedd diwygiedig unwaith y bydd y newidiadau wedi'u gweithredu (dim hwyrach na blwyddyn academaidd 2026) fel bod disgyblion yn mynychu eu hysgol arbennig leol.** |
| 11. | A fydd mannau awyr agored a rennir neu flynyddoedd unigol? | **AR Bydd yn amodol ar ymgymryd ag ymarferoldeb pellach a symud ymlaen gyda chynllun manwl yr ysgol arbennig newydd.** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **LH Bydd Gweithgor yn cael ei sefydlu i arwain ar adnabod arfer gorau ar draws y sector ysgolion arbennig.** |
| 12. | A fydd darpariaeth ar gyfer disgyblion 14 i 19 oed yn seiliedig ar sgiliau byw'n annibynnol sydd mor bwysig ar gyfer eu cyfnod pontio i fyd oedolion? | Gweler rhif 11 |
| 13. | A fydd ardaloedd ysgolion coedwig? | Gweler rhif 11 |
| 14. | A fydd gan ystafelloedd dosbarth ardaloedd coginio er mwyn i ddisgyblion allu paratoi bwyd? | Gweler rhif 11 |
| 15. | Rhieni / gwarcheidwaid yn gollwng a chasglu. | **LH Bydd yr ysgol newydd yn cynnwys systemau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff.**<br><br>Efallai y byddwn yn edrych ar ofod swyddogaeth ddeuol mae modd ei ddefnyddio yn safle i fysiau ollwng a chasglu disgyblion ar y safle ar amserau penodedig gyda'r potensial ar gyfer defnydd amgen yn cynnwys treiciau, beiciau, sgwteri ac ati y tu allan i amseroedd penodedig. |
| 16. | A fydd drysau mewnol ac allanol sydd angen ffob, aerdymheru a ffensys allanol uchel? | Gweler rhif 11<br><br>Bydd angen ffob i agor drysau mewnol ac allanol, a bydd gan yr ysgol arbennig newydd aerdymheru.<br><br>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio i gydymffurfio â 'Diogelu Drwy Ddylunio' a |

| | | |
|---|---|---|
| | | fydd yn sicrhau, ymhlith ffactorau eraill, bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Bydd dyluniadau'n cael eu datblygu ar y cyd â'r Swyddog Cynllunio i Atal Troseddu lleol gan sicrhau bod diogelwch ysgolion a'r gymuned yn egwyddorion allweddol sydd wedi'u hymgorffori yn y broses. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau staff y bydden nhw'n cael cynnig y cyfle dros yr wythnosau nesaf i fyfyrio ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben.

**Atodiad 2C - Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Tŷ Coch**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17 Gorffennaf 2023 |
| **Amser** | 15:30 tan 16:10 |
| **Math** | Microsoft Teams |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Bethan Davies | BD | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Ellen Williams | EW | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Joanna Croad | JC | Swyddog Adnoddau Dynol |
| Samantha Andrews | SA | Swyddog Adnoddau Dynol |
| David Jenkins | DJ | Prifathro Ysgol Tŷ Coch |
| Dd/B | Dd/B | Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Tŷ Coch |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. **Cwestiynau gan Staff ac Aelodau o'r Cyrff Llywodraethu**

   Gwahoddwyd Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Tŷ Coch i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau gan y Corff Llywodraethu ac aelodau staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| **Rhif** | **Cwestiwn** | **Ateb** |
|---|---|---|
| 1. | Beth fydd maint yr ysgol arbennig newydd? | **GD Rydyn ni'n bwriadu manteisio i'r eithaf ar y lle sydd ar gael ar y safle** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **arfaethedig heb fforffedu gofod allanol.**<br><br>Ar hyn o bryd rydyn ni'n bwriadu adeiladu ysgol newydd ar gyfer 180 o ddisgyblion. Serch hynny, bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad asesiad dichonoldeb pellach ac yn dilyn bwrw ymlaen â chynllun manwl yr ysgol newydd.<br><br>Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ALNET 2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn eu hardal yn barhaus ac ystyried a yw'r rhain yn ddigonol, sef pam mae angen sicrhau ein bod ni'n gwneud y mwyaf o'r gofod sydd ar gael ar y safle arfaethedig.<br><br>**ar: Dylid hefyd nodi bod y dull asesu capasiti yma sydd wedi'i amlinellu ym Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru (021/2011) yn berthnasol i bob ysgol gynradd ac uwchradd prif ffrwd Saesneg, Cymraeg, iaith ddeuol neu wirfoddol a gynorthwyir yng Nghymru. Dydy'r dull ddim yn berthnasol i ysgolion meithrin, ysgolion arbennig, nac i Unedau Cyfeirio Disgyblion. Caiff disgyblion eu gosod** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **mewn ysgolion arbennig gan Baneli Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn seiliedig ar asesiad o'u hangen, felly does dim modd i ysgolion arbennig gael eu dosbarthu 'yn llawn' ar unrhyw adeg.'** |
| 2. | Croesawn y cynnig yma fodd bynnag, mae angen inni sicrhau bod cynllunio gweithlu priodol yn cael ei wneud ochr yn ochr â’r cynnig. | **GD Mae gan ysgolion arbennig yn Rhondda Cynon Taf hanes profedig o gydweithio ac mae angen i ni barhau â'r ymagwedd yma i sicrhau bod y plant a'r bobl ifainc sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cyfleoedd gorau posibl.**<br><br>Mae angen inni sicrhau bod y staff gorau yn cael eu penodi i bob ysgol arbennig yn Rhondda Cynon Taf. |
| 3. | A fydd y dalgylchoedd newydd yn cael eu gorfodi? | **GD Bydd modd i blant a phobl ifainc sy'n dymuno aros yn eu hysgol arbennig bresennol yn dilyn y newidiadau dalgylch barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, bydd yr holl leoliadau newydd yn cael eu llywio gan y dalgylchoedd diwygiedig unwaith y bydd y newidiadau wedi’u gweithredu (dim hwyrach na blwyddyn academaidd 2026) fel bod disgyblion yn** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **mynychu eu hysgol arbennig leol.** |
| 4. | A fydd amgylchedd ysgolion arbennig yr 21ain ganrif arbenigol iawn fod ar gael i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf? | **GD Bydd yr ysgol arbennig newydd yn creu ysgol arbennig arbenigol iawn ar gyfer yr 21ain ganrif gan alluogi'r Cyngor i ddiwallu anghenion disgyblion sydd angen mynediad at gyfleusterau therapiwtig, offer ac adnoddau hynod arbenigol sydd eu hangen i ddiwallu'r holl ADY, gan gynnwys anghenion meddygol ac iechyd cymhleth.**<br><br>Er na all y Cyngor ailadrodd hyn ar draws y pedair ysgol arbennig bresennol, bydden ni'n disgwyl iddyn nhw gael eu gwasanaethu'n ddigonol gydag offer ac adnoddau i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl yn gyfartal. |
| 5. | A fydd yr ysgol arbennig newydd yn darparu gofal preswyl? | **GD** Na, fydd yr ysgol arbennig newydd ddim yn darparu gofal preswyl. |
| 6. | A allai disgyblion sy'n mynychu'r pedair ysgol arbennig arall ar draws Rhondda Cynon Taf gael mynediad i amgylchedd ysgol arbennig yr 21ain ganrif? | **GD Byddai gan y pedair ysgol arbennig arall ar draws Rhondda Cynon Taf yr un meini prawf lleoliad gan eu bod yn ei hanfod yn darparu'r un ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.**<br><br>Bydd creu ysgol arbennig arbenigol iawn ar gyfer yr 21ain ganrif yn galluogi'r Cyngor i ddiwallu anghenion disgyblion sydd angen mynediad at gyfleusterau therapiwtig |

| | | |
|---|---|---|
| | | hynod arbenigol, offer ac adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu pob ADY, gan gynnwys anghenion meddygol ac iechyd cymhleth.<br><br>Er na all y Cyngor ailadrodd hyn ar draws y pedair ysgol arbennig bresennol, bydden ni'n disgwyl iddyn nhw gael eu gwasanaethu'n ddigonol gydag offer ac adnoddau i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl yn gyfartal.<br><br>O'r flwyddyn academaidd 2026 ymlaen, bydd pob lleoliad newydd yn cael ei lywio gan y dalgylchoedd diwygiedig unwaith y bydd y newidiadau wedi'u rhoi ar waith fel bod disgyblion yn mynychu eu hysgol arbennig leol. |
| 7. | A fydd y cynnig yma'n cynnwys adolygiad o Buarth y Capel? | **GD Ar hyn o bryd rydyn ni'n ymchwilio i opsiynau i greu capasiti yn Buarth y Capel.** |
| 8. | A allai'r Cyngor edrych ar gyflwyno safleoedd lloeren i ehangu darpariaeth arbenigol? | **GD Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd i ddarparu darpariaethau arbenigol ar gyfer disgyblion ôl-16. Mae'r ddarpariaeth ôl-16 arbenigol yma'n rhyddhau lle y mae mawr ei angen ar draws y pedair ysgol arbennig a rhoi cyfle i ddisgyblion gael profiad o fywyd coleg a throsglwyddo i'r lleoliad yma ar ôl 16 oed.**<br><br>Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd, ar hyn o bryd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | darparu tair darpariaeth arbenigol ar wahân ar gyfer disgyblion ôl-16, un ar gyfer disgyblion Ysgol Arbennig Maesgwyn ar gampws Aberdâr Coleg y Cymoedd, un ar gyfer disgyblion Ysgol Hen Felin ar gampws Llwynypia Coleg y Cymoedd, ac un ar gyfer disgyblion Ysgol Tŷ Coch ar gampws Nant Garw Coleg Y Cymoedd.<br><br>Mae'n bosibl y bydd opsiynau pellach i ehangu'r bartneriaeth gyda Choleg y Cymoedd yn cael eu cynnig ar wahân yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018).<br><br>Yn ogystal, ar hyn o bryd mae 46 o Ddosbarthiadau Cymorth/Cynnal Dysgu Anghenion Addysgol Arbennig wedi'u cydleoli mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd ar draws Rhondda Cynon Taf. |

**4. Sylwadau i Gloi**

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau staff y bydden nhw'n cael cynnig y cyfle dros yr wythnosau nesaf i fyfyrio ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben.

**Atodiad 3A – Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chyngor Ysgol Ysgol Arbennig Park Lane**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 18 Gorffennaf 2023 |
| **Amser** | 10.00 tan 10:45 |
| **Math** | Wyneb yn wyneb |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Diane Llewellyn | DL | Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Arbennig Park Lane |
| Dd/B | Dd/B | Cyngor Ysgol Ysgol Arbennig Park Lane |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd LH groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd LH drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Cafodd ei gadarnhau hefyd bod y disgyblion i gyd wedi derbyn copi caled o fersiwn y ddogfen ymgynghori i blant.

3. **Cwestiynau Cyngor Ysgol**

   Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Arbennig Park Lane i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau gan y Cyngor Ysgol a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| **Rhif** | **Cwestiwn** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| 1. | Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai'r ysgol arbennig newydd gynnwys y mannau canlynol:<br><br>• Ardal ysgolion coedwig.<br>• Pwll hydrotherapi.<br>• Neuadd fawr / ardal fwyta.<br>• Mannau parcio wedi'u neilltuo y tu allan i ystafelloedd dosbarth | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y gellid ymgorffori rhai o'r awgrymiadau hyn yn y broses ddylunio. |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gyfer fframiau cerdded.<br>• Rhandir / ardal arddwriaethol.<br>• Ardal i arddangos gwaith disgyblion.<br>• Byrddau bwyta mwy.<br>• Llawer o le awyr agored.<br>• Ystafelloedd synhwyraidd lluosog i ddarparu profiadau synhwyraidd lluosog i ddisgyblion.<br>• Mannau tawel/ymneilltuo gyda seddau cyfforddus.<br>• Trampolinau sy'n cael eu suddo i'r ddaear, y tu mewn a thu allan.<br>• Dosbarthiadau bywiog. | |
| 2. | Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai fod gan yr ysgol arbennig newydd lawer o fannau i ollwng plant yno ar ddechrau'r diwrnod ysgol a'u casglu ar ddiwedd y diwrnod ysgol. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai hyn yn cael ei ymgorffori yn y broses ddylunio. |
| 3. | Gofynnodd y Cyngor Ysgol pwy fyddai'n mynd i'r ysgol arbennig newydd. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol o'r dalgylchoedd. Hysbyswyd y Cyngor Ysgol bod modd i blant a phobl ifainc sy'n dymuno aros yn eu hysgol arbennig bresennol yn dilyn y newidiadau dalgylch barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, bydd yr holl leoliadau newydd yn cael eu llywio gan y dalgylchoedd diwygiedig unwaith y bydd y newidiadau wedi'u gweithredu (dim hwyrach na blwyddyn academaidd 2026) fel bod disgyblion yn mynychu eu hysgol arbennig leol. |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | Gofynnodd y Cyngor Ysgol beth fyddai maint yr ysgol arbennig newydd. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol bod y Cyngor wedi adnabod safle posib ar gyfer lleoliad yr ysgol arbennig newydd a bod arbenigwyr nawr yn edrych ar y safle posib i greu ysgol arbennig mor fawr â phosib. Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai'r Cyngor yn greadigol i fanteisio ar y gofod a hoffai i'r ysgol arbennig newydd fod yn ddigon mawr ar gyfer tua 180 i 200 o ddisgyblion. |
| 5. | Gofynnodd y Cyngor Ysgol pryd y byddai'r ysgol arbennig newydd yn cael ei hagor. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai'r ysgol arbennig newydd yn cael ei hagor erbyn blwyddyn academaidd 2026. |
| 6. | Gofynnodd y Cyngor Ysgol pa oedran allech chi fod i fynd i'r ysgol arbennig newydd. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai’r ysgol arbennig newydd ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed. |
| 7. | Gofynnodd y Cyngor Ysgol faint fyddai cost yr ysgol arbennig newydd. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai'r ysgol arbennig newydd yn costio tua £54 miliwn ac y byddai Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn ei hariannu ar y cyd. |
| 8. | Gofynnodd y Cyngor Ysgol faint o loriau fyddai'r ysgol arbennig newydd. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai'r Cyngor yn greadigol i wneud y mwyaf o'r gofod a, phe bai angen, byddai'r ysgol arbennig newydd yn cael ei hadeiladu dros ddau lawr ac y byddai lifftiau'n cael eu cynnwys. |
| 9. | Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai'r neuaddau a'r drysau fod yn ddigon llydan i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a fframiau / offer cerdded. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai hyn yn cael ei ymgorffori yn y broses ddylunio. |

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai fod 'pad cyffwrdd' y tu allan i bob drws er mwyn hwyluso agor y drysau. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y gellid ymgorffori hyn yn y broses ddylunio. |
| 11. | Dywedodd y Cyngor Ysgol yr hoffen nhw gael cegin / ardal gaffi i ddatblygu sgiliau bywyd a dywedodd y bydden nhw'n sefydlu menter 'Troli Iach' yn y flwyddyn academaidd newydd i gynorthwyo disgyblion i ddysgu sgiliau newydd. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol bod caffi wedi ei sefydlu mewn ysgol arbennig arall, Ysgol Tŷ Coch, sy'n cynorthwyo disgyblion i ddysgu sgiliau newydd.<br><br>Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y gellid ymgorffori hyn yn y broses ddylunio. |
| 12. | Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai’r ysgol arbennig newydd gynnwys y materion canlynol:<br><br>• Llawer o le awyr agored.<br>• Rhandir / ardal arddwriaethol.<br>• Ardal ysgolion coedwig.<br>• Mannau tawel/ymneilltuo gyda seddau cyfforddus.<br>• Ystafelloedd synhwyraidd lluosog i ddarparu profiadau synhwyraidd lluosog i ddisgyblion.<br>• Ardal i arddangos gwaith disgyblion.<br>• Dosbarthiadau bywiog.<br>• Neuadd fawr / ardal fwyta.<br>• Byrddau bwyta mwy.<br>• Mannau parcio wedi'u neilltuo y tu allan i ystafelloedd dosbarth ar gyfer fframiau / cyfarpar cerdded.<br>• Pwll hydrotherapi.<br>• Trampolinau sy'n cael eu suddo i'r ddaear, y tu mewn a thu allan. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y gellid ymgorffori rhai o'r awgrymiadau hyn yn y broses ddylunio. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Anogwyd y Cyngor Ysgol i gymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy gwblhau'r arolwg ar-lein neu roi sylwadau ysgrifenedig iddo cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk.

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben.

**Atodiad 3B – Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chyngor Ysgol Hen Felin**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 19 Gorffennaf 2023 |
| **Amser** | 10:00 tan 11:00 |
| **Math** | Wyneb yn wyneb |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Chloe Daunton | CD | Athrawes Ysgol Hen Felin |
| Dd/B | Dd/B | Cyngor Ysgol Ysgol Hen Felin |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd LH groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd LH drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Cafodd ei gadarnhau hefyd bod y disgyblion i gyd wedi derbyn copi caled o fersiwn y ddogfen ymgynghori i blant.

3. **Cwestiynau Cyngor Ysgol**

   Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Hen Felin i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau gan y Cyngor Ysgol a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| **Rhif** | **Cwestiwn** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| 1. | Pryd bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu? | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai'r ysgol arbennig newydd yn cael ei hagor erbyn blwyddyn academaidd 2026. |
| 2. | Beth fydd enw'r ysgol? | Bydd Corff Llywodraethu a Chyngor Ysgol newydd yn cael eu sefydlu ar gyfer yr ysgol arbennig newydd, a byddan nhw'n cydweithio â swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn datblygu enw ysgol newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | Sawl disgybl fydd yn mynd i'r ysgol newydd? | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol bod y Cyngor wedi adnabod safle posib ar gyfer lleoliad yr ysgol arbennig newydd a bod arbenigwyr nawr yn edrych ar y safle posib i greu ysgol arbennig mor fawr â phosib. Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai'r Cyngor yn greadigol i fanteisio ar y gofod a hoffai i'r ysgol arbennig newydd fod yn ddigon mawr ar gyfer tua 180 i 200 o ddisgyblion. |
| 4. | A fydd yr ysgol newydd yn ysgol 3 i 19 fel ein hysgol ni? | Bydd, bydd yr ysgol arbennig newydd yn ysgol arbennig 3 i 19 oed fel Ysgol Hen Felin. |
| 5. | Pam fod yr ysgol newydd mor agos at ein hysgol ni? | Edrychwyd ar nifer o safleoedd gwag yn Rhondda Cynon Taf gan ddefnyddio rhestr o feini prawf. Y safle a ddewiswyd fel y safle gorau a mwyaf yn seiliedig ar y meini prawf hyn oedd Cwm Clydach, Tonypandy. |
| 6. | Pa liw fydd y wisg ysgol newydd? | Bydd Corff Llywodraethu a Chyngor Ysgol newydd yn cael eu sefydlu ar gyfer yr ysgol arbennig newydd, a byddan nhw'n cydweithio â swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn datblygu gwisg ysgol newydd. |
| 7. | A fydd disgyblion Ysgol Hen Felin yn symud i'r ysgol newydd? | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol o'r dalgylchoedd. Hysbyswyd y Cyngor Ysgol bod modd i blant a phobl ifainc sy'n dymuno aros yn eu hysgol arbennig bresennol yn dilyn y newidiadau dalgylch barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, bydd yr holl |

| | | |
|---|---|---|
| | | leoliadau newydd yn cael eu llywio gan y dalgylchoedd diwygiedig unwaith y bydd y newidiadau wedi'u gweithredu (dim hwyrach na blwyddyn academaidd 2026) fel bod disgyblion yn mynychu eu hysgol arbennig leol. |
| 8. | A fydd disgyblion o'r ysgol newydd yn ymweld â ni ac a allwn ni ymweld â nhw? | Byddwn. Bydd cysylltiadau yn cael eu sefydlu rhwng yr ysgol arbennig newydd ac Ysgol Hen Felin. Gallai'r ddwy ysgol ymuno ar gyfer digwyddiadau megis sesiynau Cyngor Ysgol, diwrnodau mabolgampau a diwrnodau hwyl. |
| 9. | Pa gyfleusterau fydd gan yr ysgol newydd? | Bydd gan yr ysgol arbennig newydd gyfleusterau tebyg i rai Ysgol Hen Felin.<br><br>Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai'r ysgol arbennig newydd gynnwys ystafell gyfryngau, fel y gallai'r ysgol arbennig newydd sefydlu gorsaf radio ysgol. |
| 10. | A fydd gan yr ysgol newydd ei Chyngor Ysgol ei hun? | Bydd, bydd gan yr ysgol arbennig newydd Gyngor Ysgol. |
| 11. | Faint fydd yr ysgol newydd yn ei gostio i adeiladu? | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai'r ysgol arbennig newydd yn costio tua £54 miliwn ac y byddai Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn ei hariannu ar y cyd. |
| 12. | A fydd yr ysgol newydd yn cael digwyddiad agoriadol? | Bydd, bydd yr ysgol arbennig newydd yn cael digwyddiad agoriadol a bydd gwahoddiad i Gyngor Ysgol Ysgol Hen Felin fynychu. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Anogwyd y Cyngor Ysgol i gymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy gwblhau'r arolwg ar-lein neu roi sylwadau ysgrifenedig iddo cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk.

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben.

## Atodiad 3C - Cofnodion Cyfarfodydd Cyngor Ysgol Tŷ Coch

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17 Gorffennaf 2023 |
| **Amser** | 13:30 tan 14:20 |
| **Math** | Wyneb yn wyneb |

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Grace Zecca-Hanagan | GZH | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Kimberley Hooper | KH | Arweinydd Cyngor Ysgol yn Ysgol Tŷ Coch |
| Dd/B | Dd/B | Cyngor Ysgol Tŷ Coch |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd LH groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd LH drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Cafodd ei gadarnhau hefyd bod y disgyblion i gyd wedi derbyn copi caled o fersiwn y ddogfen ymgynghori i blant.

3. **Cwestiynau Cyngor Ysgol**

   Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Tŷ Coch i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn ynghyd â'u hymateb, lle bo angen.

| **Rhif** | **Cwestiwn** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| 1. | Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai'r ysgol arbennig newydd gynnwys y mannau canlynol:<br>• Llawer o le awyr agored.<br>• Ystafell gyffredin ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth.<br>• Mannau tawel / ymneilltuo.<br>• Ystafell Synhwyraidd, | Dangoswyd rhai enghreifftiau i'r Cyngor Ysgol o rai ysgolion newydd a gyflwynwyd gan y Cyngor yn ddiweddar. |

| | | |
|---|---|---|
| 2. | Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai dyluniad yr ysgol arbennig newydd fod yn olau. | Dangoswyd rhai enghreifftiau i'r Cyngor Ysgol o ystafelloedd dosbarth a gyflwynwyd yn ddiweddar gan y Cyngor. Roedd yn well gan y Cyngor Ysgol yr ystafelloedd dosbarth a oedd yn cynnwys gosodiadau, ffitiadau a dodrefn mwy disglair. |
| 4. | Dywedodd y Cyngor Ysgol y dylai fod gan yr ysgol arbennig newydd lawer o fannau i ollwng plant yno ar ddechrau'r diwrnod ysgol a'u casglu ar ddiwedd y diwrnod ysgol.<br><br>Mae'r mwyafrif o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Tŷ Coch yn defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol. Oherwydd hyn, mae dwy sesiwn ar hyn o bryd i ollwng disgyblion ar ddechrau'r diwrnod ysgol a dwy sesiwn i'w codi ar ddiwedd y diwrnod ysgol. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y byddai hyn yn cael ei ymgorffori yn y broses ddylunio. |
| 5. | Eglurodd y Cyngor Ysgol fod caffi wedi ei sefydlu yn Ysgol Tŷ Coch sy'n cynorthwyo disgyblion i ddysgu sgiliau newydd. Awgrymwyd y gallai'r math yma o beth gael ei gynnwys yn yr ysgol newydd. | Hysbyswyd y Cyngor Ysgol y gellid ymgorffori hyn yn y broses ddylunio. |

## 6. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau ac ymatebion  a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Anogwyd y Cyngor Ysgol i gymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy gwblhau'r arolwg ar-lein neu roi sylwadau ysgrifenedig iddo cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk.

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben.